# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd D.B.F. White** **Ward**: Castellnewydd

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ailethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Castellnewydd ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol nifer o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn amrywio o bryderon ynghylch tyllau yn y ffordd, coed sydd wedi tyfu'n wyllt a goleuadau stryd. At hynny, pryderon personol mewn perthynas â chyfleusterau gofal ac ysgolion lleol.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward. Rwyf hefyd yn defnyddio fy mhrofiadau o weithio yn y gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi trigolion lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**<u>Gweithgarwch Etholaeth</u>**

Yn y flwyddyn ddiwethaf, roeddwn wedi parhau i ymgysylltu â nifer o adnoddau yn y gymuned leol ac yng nghanol y dref. Rwyf weithgar iawn gyda Chanolfan Gymunedol Westward, lle mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn fy ystyried fel ymgynghorydd. Gweithiais gyda chymdeithas dai ac adeiladwr, sydd wedi gosod cegin am ddim yng Nghanolfan Gymunedol Westward.

Rwyf wedi gweithio'n ddiflino gyda'r gymuned ar yr ymgyrch i wella'r lawnt ar Sant Illtud, a arweiniodd at Gymoedd i'r Arfordir yn gwneud gwaith atgyweirio ar y lawnt.

Rwyf wedi cefnogi trigolion lleol yn yr ymgyrch lwyddiannus i atal nifer o dai rhag cael eu codi ar fannau gwyrdd mewn dwy ardal wahanol yn y ward a mynediad yn cael ei roi drwy ffordd bengaead.

Rwyf wedi cefnogi'r lluoedd arfog ac apêl y pabi a bob blwyddyn rwy'n gosod pabïau yng nghanol y dref. Ynghyd ag eraill rwy'n gwerthu pabïau ac rwy'n trefnu diwrnod

gwasanaeth ï'r plant cyn y gwasanaeth cofio.

Y llynedd rhoddais gefnogaeth gorfforol i Simon Green yn ei her ddi-baid 24 awr i wthio ei gadair olwyn o Barc y Strade i Rodney Parade.

Rwyf wedi hwyluso cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas ag ymgynghoriad bws diweddar ac rwy'n cynnal cymorthfeydd rheolaidd.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Y tu allan i'r etholaeth rwyf wedi bod yn gefnogol i ganol y dref ac yn parhau i weithio gyda Sioe Ceir Clasurol Morgannwg wrth iddynt gyflwyno sioe ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rwy'n darparu cymorth ymarferol yng Ngŵyl Stryd Gwreiddiau ac rwyf wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar ddigwyddiadau eraill.

Yn fy rôl ar yr ICA ac fel cadeirydd Cymru o'r ICA, ymgyrchais yn weithredol dros nifer o faterion sy'n effeithio ar ein cymunedau.

http://www.industrialcommunitiesalliance.org/

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn fy rôl ar y Bwrdd Iechyd Cymunedol Lleol, rwyf wedi siarad â nifer o bobl mewn perthynas â'r cynlluniau i adeiladu canolfan iechyd newydd yn Sunnyside a byddaf yn parhau i sicrhau bod gan drigolion lleol fewnbwn i ddyluniad a model y ganolfan iechyd.

Rwy'n aelod o'r Awdurdod Tân Lleol ac roedd yn anrhydedd i mi gynrychioli'r ward, y fwrdeistref a'r Awdurdod Tân pan osodais dorch ar y Gofeb Dân yn Llundain. Roedd hyn er mwyn anrhydeddu'r rhai o'r gwasanaeth tân a gollodd eu bywydau fel aelod yn gwasanaethu'r Gwasanaeth Tân. Rwy'n mynd i ddigwyddiadau ar ran y Gwasanaeth Tân yn rheolaidd.

**Y Cynghorydd D.B.F White** **Dyddiad: 31.05.2018**